



Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 2AIL RHAGFYR, 2019**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda Swyddfeydd y Cyngor**

**Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**[lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru](mailto:lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru)**

(Dosbarthwyd 22 Tachwedd 2019)

# **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

## **AELODAETH (15)**

### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Steve Collings  
Dafydd Owen  
Peter Read  
Sedd Wag - Plaid Cymru

Annwen Hughes  
Edgar Wyn Owen  
Elfed Williams  
Gareth Jones

### **Annibynnol (4)**

Y Cynghorwyr

John Brynmor Hughes  
Jason Wayne Parry

Eryl Jones-Williams  
Angela Russell

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cyngorydd Gareth Williams

### **Aelod Unigol (2)**

Y Cyngorydd Roy Owen

Sedd Wag - Aelod Unigol

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION

4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 9fed o Fedi 2019 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

6 - 22

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:

- a) 01.08.2019
- b) 18.09.2019
- c) 20.09.2019
- d) 07.10.2019

## 6. DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI 23 - 27

I ystyried yr adroddiad

# Eitem 4

---

## PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL, 09.09.19

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Steve Collings, Annwen Hughes, Gareth Jones, Eryl Jones-Williams, Edgar Wyn Owen, Dafydd Owen, Roy Owen, Jason Wayne Parry, Angela Russell, Elfed W. Williams (Cadeirydd) a Gareth Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol – Cynllunio ac Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**Eraill a wahoddwyd:** Cyngorydd Gareth Griffiths, Aelod Cabinet Amgylchedd

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorydd John Brynmor Hughes a Peter Read

Croesawyd y Cyngorydd W Roy Owen fel aelod newydd i'r Pwyllgor Trwyddedu Canolog

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd Mehefin 3ydd 2019 fel rhai cywir.

### 5. COFNODION IS BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfod o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol a gynhaliwyd 03.06.19 a 20.06.19

### 6. UCHAFSWM PRISIAU TEITHIAU CERBYDAU TACSI HACNI

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth yr Adran Amgylchedd yn gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo cynnig gan y diwydiant tacsï i adolygu'r uchaf bris y gall ei godi am deithiau mewn cerbyd hacni yn y Sir. Amlygwyd ei bod yn ofynnol i unrhyw gais am newid i'r uchaf bris gael ei gyflwyno gan y diwydiant a chadarnhawyd bod cais diweddar i adolygu'r prisiau, wedi ei gyflwyno gan Mr J Pritchard, perchennog cwmni tacsï lleol. Ategwyd nad oedd cais i adolygu'r uchaf bris wedi ei dderbyn ers 2011 a phwysleisiwyd nad oedd yr uchaf bris yn berthnasol i deithiau mewn cerbydau hurio preifat.

Cyfeiriwyd at dabl yn yr adroddiad oedd yn cymharu prisiau cyfatebol am daith 2 filltir. Nodwyd bod y cynnydd arfaethedig wedi ei gyfrifo drwy ychwanegu chwyddiant ar

gyfartaledd o 2.6% y flwyddyn at bris taith y filltir a bennwyd yn 2011. Awgrymwyd, o fewn y diwydiant mai prisiau'r teithiau sydd yn gyrru'r gystadleuaeth a mynegwyd mai annhebygol fyddai i bob cwmni godi eu prisiau.

Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol 11eg o Ebrill 2019, fe benderfynwyd derbyn y cynnig arfaethedig i godi uchaf bris a ellid ei godi am daith mewn cerbyd hacni yn unol â'r argymhelliad, yn ddarostyngedig i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol. Adroddwyd bod ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ac fe dderbyniwyd 4 ymateb gan unigolion o'r diwydiant tacsï ac un aelod o'r cyhoedd. Ategwyd na ddaeth yr uchaf bris arfaethedig i rym yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus oherwydd bod ymatebion wedi eu derbyn i'r ymgynghoriad. Cyfeiriwyd at yr ymatebion oedd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad er mwyn i'r Pwyllgor eu hystyried cyn dod i benderfyniad terfynol ar yr uchaf bris.

Diolchwyd am yr adroddiad a croesawyd y cynnig i osod uchaf bris

Nododd un aelod ei fod yn cytuno gyda'r cynnig mewn ymateb i osod y filltir gyntaf yn £3.60 ac yna 30c am bob un rhan o 10 milltir ar ôl hynny oherwydd cymhleth fyddai gosod y cloc tacsï fel arall. Mewn ymateb i un o'r ymatebion ynglŷn â bod ffi baeddu tacsï yn rhy isel (£45) ac y dylid ystyried ei gynyddu i o leiaf £70, dadleuwyd bod modd talu am lanhau car yn lleol am o leiaf £40 ac felly ystyriwyd y cynnydd i £70 yn ormod. Nododd y Rheolwr Trwyddedu, petai'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r cynnig i godi'r uchaf bris, byddai'r ffi glanhau yn aros yn £45.

Mewn ymateb i sylw bod angen sicrhau tegwch i gwmnïau yng nghefn gwlad yn ogystal a chwmnïau mewn trefi / dinasoedd, derbyniwyd mai anodd yw cael mynediad at wasanaethau yng nghefn gwlad, ond nad oes rheidrwydd i gwmnïau godi eu prisiau – uchaf bris sydd yn cael ei osod. Nodwyd y byddai modd i gwmnïau ymateb yn well i gystadleuaeth gyda'r rhyddid yma.

Gwnaed sylw pellach bod uchaf bris arfaethedig Gwynedd yn parhau yn gystadleuol ymysg uchaf brisiau Siroedd eraill y Gogledd a bod hyn i'w groesawu.

**PENDERFYNWYD, WEDI YSTYRIED YR YMATEBION A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y CYFNOD YMGYNGHORI, CYMERADWYO'R CYNNIG I GODI'R UCHAF BRIS GALL Y DIWYDIANT TACSI GODI AM DEITHIAU MEWN CERBYD HACNI YN Y SIR.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:20am

# Eitem 5

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 01.08.2019

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Annwen Hughes (Cadeirydd), Y Cynghorwyr John Brynmor Hughes ac Angela Russell

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Gwenan M Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Peter Read.

Nodwyd ei fod wedi derbyn llawdriniaeth yn ddiweddar ac anfonwyd dymuniadau am wellhad buan ato

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod collfarn 1988 yn un a ddigwyddodd

pan oedd yn ei arddedgau ac nad oedd wedi bod mewn unrhyw fath o drwbl ers hynny. Ategodd nad oedd collfarn 1989 yn berthnasol iddo ef ac fe gyflwynodd lythyr gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (dyddiedig 26.9.19) yn cadarnhau hynny. Nododd hefyd y byddai tystysgrif ddiwygiedig yn cael ei anfon ato.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

ch) Ym Medi 1988 canfuwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Porthaethwy ar ddau gyhuddiad - un o ymosod yn achosi niwed corfforol yn groes i adran 47 Deddf Troseddau Corfforol 1861, ac un cyhuddiad o affræe yn groes i adran 3 Deddf Trefn Gyhoeddus 1986. Cafodd ddirwy o £400.00 a gorchymyn i dalu costau o £47.00.

Yn ôl datganiad DBS yr ymgeisydd roedd ganddo gollfarn (Mawrth 1989) am dri cyhuddiad o ddwyn o siopau, yn groes i adran 1 Deddf Lladrata 1968. Fodd bynnag, cadarnhaodd yn y gwrandawriad bod y cofnod hwn wedi'i gynnwys mewn camgymeriad a cyflwynodd lythyr i'r Is-bwyllgor gan y DBS yn cadarnhau bod y datgeliad yn cynnwys gwall.

d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Ym mharagraff 6.2 nodir y byddai un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae ymosodiad cyffredin ac affræe yn cael ei gynnwys yn y rhestr.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, bwrgeriaeth.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o

ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

- dd) Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod troseddau 1988 yn droseddau o drais. Fodd bynnag, gan fod y troseddau hyn wedi digwydd dros 30 mlynedd yn ôl, sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 mlynedd nid oedd paragraffau 6.2 a 6.5 yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Wrth bwysu a mesur collfarn 1989 at ddibenion y cais, nodwyd nad oedd y llythyr a dderbyniwyd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (dyddiedig 26.7.19) yn nodi'r gwall yn briodol, ac felly derbyniwyd datganiad yr ymgeisydd. Er hynny, gan fod y drosedd wedi digwydd dros 30 mlynedd yn ôl ni fyddai wedi arwain at wrthod y cais, naill ai ar ben ei hun o dan baragraff 8.2, neu mewn cyfuniad a cholffarn 1988 o dan baragraff 16.1 oherwydd ei fod tu hwnt i'r cyfnodau priodol.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## **6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Ms B**

- a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Ms B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei chais a rhoi gwybodaeth am gefndir y drosedd a'i hamgylchiadau personol. Amlygodd bod y drosedd wedi digwydd o ganlyniad i 'fod yn y lle anghywir ar yr amser anghywir'. Nododd bod ei theulu yn rhedeg cwmni tacsï a'i bod wedi cael cynnig gwaith i gynorthwyo gyda'r busnes dros y penwythnosau.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

- b) **PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

- c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS



- ch) Derbyniodd yr ymgeisydd rybudd gan Heddlu Gogledd Cymru (Mehefin 2015) am un drosedd o guro (*battery*) yn groes i adran 39 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988.
- d) Mae paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 yn nodi bod rhybuddion yn cael eu cynnwys fel 'materion eraill i'w hystyried'

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Ym mharagraff 6.2 nodir y byddai un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo/i fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae ymosodiad cyffredin yn cael ei gynnwys yn y rhestr.

- dd) Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod trosedd 2015 yn drosedd o drais. Fodd bynnag, gan fod y drosedd hon wedi digwydd dros 4 mlynedd yn ôl, sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 mlynedd nid oedd paragraffau 6.2 a 6.5 yn goroesi, ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## **7. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C**

Hefyd yn bresennol: Owain Williams (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd – swyddog cyfrifol am arwain yr erlyniad Medi 2016) ac Alun Merfyn Roberts (Swyddog Gorfodaeth Gwarchod y Cyhoedd - arsylwi)

- a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr C am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar ei gais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Mynegodd ei fod wedi bod drwy gyfnod anodd yn ddiweddar gyda thor priodas, ei fab wedi bod mewn damwain ddifrifol a marwolaeth un o'i frodyr. Nododd, er nad oedd yn chwilio am esgus bu iddo adael i bethau lithro o ran gweinyddu a rhedeg ei fusnes tacssi. Ategodd ei fod yn yrrwr da a'i fod yn dymuno dychwelyd i Ogledd Cymru i weithio. Dadleuodd na ddylai gael ei feirniadu ar un camgymeriad ac yntau wedi bod yn yrrwr tacsï difai.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

b) **PENDERFYNWYD nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- sylwadau llafar a gyflwynodd y swyddog gorfodaeth yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

ch) Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn (Mehffin 1979) gan Lys Ieuenctid Lerpwl ar un cyhuddiad o ddwyn, yn groes i Adran 1 Deddf Lladrata 1968. Derbyniodd ryddhad amodol am 12 mis (collfarn 1). Yn mis Awst 1984 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Wirral ar un cyhuddiad o ddwyn o gerbyd yn groes i Ddeddf Lladrata 1968. Cafodd ddirwy o £50.00 a gorchymyn i dalu iawndal o £12.00 (collfarn 2). Yn mis Tachwedd 1986 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Birkenhead ar ddau gyhuddiad o hawlio budd-dal plant drwy dwyll, yn groes i adran 11 Deddf Budd-dal Plant 1975. Derbyniodd ddirwy o £60.00, a gorchymyn i dalu costau o £30.00 ac iawndal o £ 8.00 (collfarn 3).

Derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn yng Ngorffennaf 1991 gan Lys Ynadon Dolgellau ar 3 chyhuddiad – un o rwystro'r heddlu, yn groes i Adran 51 (3) Deddf yr Heddlu 1964, a dau gyhuddiad o dderbyn eiddo trwy dwyll yn groes i Adran 15 Deddf Lladrata 1968. Am y cyhuddiad cyntaf cafwyd ddirwy o £100 a gorchymyn i dalu costau o £20.00. Ar gyfer y ddau gyhuddiad arall, derbyniodd ddau ryddhad amodol 12 mis a gorchymyn i dalu iawndal o £195.00 (collfarn 4).

Ym Medi 1991 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Wirral ar un cyhuddiad o ddifrod troseddol yn groes i Adran 1 Deddf Difrod Troseddol 1971. Gorchymynnwyd iddo dalu iawndal o £212.13 (collfarn 5). Yn Nhachwedd 1998 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Ynys Môn ar gyhuddiad o ffugio dogfen ar wahân i bresgripsiwn ar gyfer cyffur rhestredig yn groes i Adran 1 Deddf Ffugio 1981. Derbyniodd ddirwy o £40.00 a gorchymyn i dalu costau o £35.00 (collfarn 6).

Ym Medi 2000 cafwyd yr ymgeisydd yn euog gan Lys Ynadon Meirionnydd ar un cyhuddiad o yfed a gyrru, yn groes i Adran 5 Deddf Traffig Ffyrdd 1988. Derbyniodd ddirwy o £100.00, gorchymyn i dalu costau o £35.00, a'i wahardd rhag gyrru am 18 mis (collfarn 7).

Canfuwyd yr ymgeisydd yn euog i 3 chyhuddiad (Ebrill 2017) gan Llys Ynadon Caernarfon mewn erlyniad a ddygwyd gan Gyngor Gwynedd (collfarn 8) mewn perthynas â chaniatáu i gerbyd anrhwyddedig o'i feddiant gael ei yrru heb drwydded gyfredol na pholisi yswiriant dilys wrth gludo plant ysgol yn unol â Chytundeb Cludiant, yn groes i Adran 46 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a Deddf Traffig Ffordd 1988. Am y

troseddau hyn derbyniodd ddirwy o £200 a 6 phwynt cosb ar ei drwydded. Yn dilyn y digwyddiad anfonwyd sawl llythyr at yr ymgeisydd yn cynnig cyfle iddo egluro amgylchiadau'r digwyddiad ond darganfuwyd bod yr ymgeisydd wedi symud i fyw o'r ardal. Mae'n ofynnol o dan ddarpariaethau Adran 44 o Ddeddf Cymalau Heddlu'r Dref 1847 fod perchennog cerbyd hacni yn hysbysebu'r Cyngor o newid preswylfa. Derbyniodd ddirwy o £40 am y cyhuddiad yma.

- d) Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol. Mae paragraff 2.3 yn nodi bod 'hysbysiadau cosb benodedig' yn cael eu cynnwys fel 'materion eraill i'w hystyried'. Nodir paragraff 2.4, pan fydd ymgeisydd wedi'i gael yn euog o drosedd(au) neu fod mater arall/materion eraill i'w (h)ystyried yng nghyswllt hynny, ni chaiff y cyngor adolygu rhinweddau'r gollfarn honno na'r mater arall hwnnw.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai Is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Ym mharagraff 6.2 nodir y byddai un sydd wedi'i gael yn euog o droseddau'n ymwneud â thrais yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf. Fe nodir ym mharagraff 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae difrod troseddol a rhwystro yn cael ei gynnwys yn y rhestr. Fe nodir ym mharagraff 6.6 y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes mwy nag un gollfarn am drosedd o natur dreisgar yn erbyn yr ymgeisydd, neu fater arall i'w ystyried yn gysylltiedig â hynny, o fewn y 10 mlynedd diwethaf.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, twyll budd-dal, ffugio a bwrgleriaeth

Mae paragraff 11.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag yfed a gyrru ac yn nodi na fyddai collfarn unigol yn arwain at wrthod cais (neu ddiddymu trwydded bresennol) ar yr amod bod 3 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r gwaharddiad ddod i ben.

Ystyriwyd paragraff 12.2 sydd yn rhestru troseddau traffig difrifol at ddibenion y Polisi. Ymysg y troseddau mae 'defnyddio cerbyd sydd heb gael ei yswirio yn erbyn risgiau trydydd parti' yn cael ei gynnwys. Nodir ym mharagraff 12.3 y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os yw'r ymgeisydd wedi cyflawni trosedd traffig difrifol unigol ac nad ydyw wedi bod yn rhydd o gollfarn am o leiaf 6 mis.

Mae paragraff 16.1 o bolisi'r Cyngor yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

dd) Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad

- bod collfarnau 1, 2, 3, 4 (cyhuddiadau 2 a 3) a 6 yn ymwneud a throeddau o anonestrwydd. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd ym 1998, dros 20 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Gall, er hynny, fod yn sail i wrthod mewn cyfuniad a cholffarnau eraill yn rhinwedd paragraff 16.1.
- bod collfarnau 4 (cyhuddiad 1) a 5 yn ymwneud â throeddau o drais. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd ym 1991, dros 27 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 10 mlynedd), nid oedd paragraff 6.6 o'r Polisi yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Gall, er hynny fod yn sail i wrthod mewn cyfuniad a cholffarnau eraill yn rhinwedd paragraff 16.1
- bod collfarn 7 yn ymwneud ag yfed a gyrru. Gan fod y gwaharddiad wedi dod i ben yn 2002 fan bellaf, nid oedd paragraff 11.1 o'r Polisi yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais. Gall, er hynny fod yn sail i wrthod mewn cyfuniad a cholffarnau eraill yn rhinwedd paragraff 16.1
- bod collfarn 8 (cyhuddiad 2) yn ymwneud â throedd traffig ddifrifol. Dadleuodd yr ymgeisydd ei fod wedi'i yswirio er gwaethaf pledio'n euog ac fe gyflwynodd lythyr gan ei yswirwyr yn cefnogi hyn. Er hynny, ni fu i'r ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth ei fod wedi cymryd camau i apelio neu wrthdroi'r gollfarn trwy'r Llys. Yn ogystal, ystyriwyd paragraff 2.4 sydd yn nodi yn glir na ellir adolygu rhinweddau'r gollfarn. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn wedi digwydd dros 6 mis yn ôl, nid oedd paragraff 12.3 yn berthnasol, er y gall fod yn sail i wrthod mewn cyfuniad a cholffarnau eraill yn rhinwedd paragraff 16.1

Wrth ystyried y collfarnau, roedd yr Is bwyllgor o'r farn bod troseddu dro ar ôl tro yn dangos diffyg parch at les eraill neu am eiddo. O ganlyniad roedd paragraff 16.1 o'r polisi yn berthnasol. Amlygodd y Cyfreithiwr nad yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyrto oddi ar yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn cyfiawnhau hynny. Rhoddwyd sylw arbennig i'r pwyntiau bwled ym mharagraff 4.2 o'r adroddiad, sydd yn cynnwys difrifoldeb y troseddau, perthnasedd, dyddiad y cafodd y drosedd ei chyflawni, dyddiad y gollfarn ac oedran yr ymgeisydd ar adeg y gollfarn, y ddedfryd a roddwyd gan y Llys ac os yw'r troseddau yn perthyn i batrwm o droseddu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau perthnasol eraill.

Eglurodd yr ymgeisydd ei fod yn mynd trwy gyfnod personol anodd yn ystod y cyfnod a arweiniodd at gollfarn 2017. Er bod yr Is bwyllgor yn cydymdeimlo gyda'r ymgeisydd roedd rhaid iddynt flaenoriaethu ac amddiffyn diogelwch y cyhoedd. Wedi ystyried yr amgylchiadau yn llawn, nid oedd yr Is bwyllgor wedi eu hargyhoeddi bod hwn yn achos lle gellid cyfiawnhau gwyrto oddi wrth y Polisi

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn nad oedd yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00am a daeth i ben am 12:45pm

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Peter Read (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Steve Collings a Gareth Williams

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Alun Merfyn Roberts (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwysu'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygwyd bod y drosedd wedi digwydd ers i'r ymgeisydd fod yn ei ardegau. Ategwyd bod yr ymgeisydd wedi bod yn gweithio yn y maes gofal ers dros 12 mlynedd a bellach eisiau newid cyfeiriad.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn Chwefror 2005 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Ynys Môn ar un cyhuddiad o fwrgeriaeth a dwyn o eiddo preswyl, yn groes i Adran 9(1) Deddf Lladrata 1968. Cafodd orchymyn goruchwyliaeth am 18mis. Yn ddiweddarach yn Mai 2005, derbyniodd ddwy gollfarn gan Lys Ynadon Ynys Môn am ddwyn gan berson, eto, yn groes i Adran 1 Deddf Lladrata 1968. Ar gyfer y collfarnau cafodd orchymyn goruchwyliaeth, gorchymyn i dalu iawndal a chostau. Cafodd y ddau orchymyn goruchwyliaeth eu diddymu yn gynnar ar sail ymddygiad da.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwy 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'r un ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, bwrgeriaeth a lladrata.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod y troseddau yn ymwneud a throseddau o anonestrwydd. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 2006, dros 13 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## **6. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr B**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd

gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiameddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr B am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd cynrychiolydd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn 1978 ac Ebrill 1979 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarnau gan Lys Ynadon Caernarfon am ddwyn o siop yn groes i Adran 1 Ddeddf Lladrata 1968. Yn Ionawr 1982, derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon am ddwy drosedd o gyflawni a meddu cyffuriau rheoledig, yn groes i Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971. Derbyniodd ddirwy o £70 a gorchymyn i dalu costau o £3. Yn ddiweddarach yn Awst 1984 derbyniodd gollfarn arall am feddu cyffuriau rheoledig lle derbyniodd dirwy o £50. Ym Mawrth 1985 cafwyd yr ymgeisydd yn euog o drin eiddo wedi ei ddwyn yn groes i Ddeddf Lladrata 1968 (cafodd orchymyn i wneud 240 awr o wasanaeth cymunedol). Yn 1986 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am feddu cyffuriau rheoledig a chafodd ddedfryd o garchar am 28 diwrnod. Yn Nhachwedd 1997 derbyniodd gollfarnau am feddu cyffuriau rheoledig. Ers Tachwedd 1997 nid oedd gan yr ymgeisydd gollfarnau pellach - nodwyd bod ganddo drwydded yrru lan.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn

dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, bwrgeriaeth a lladrata.

Ystyriwyd paragraff 9.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau sydd yn ymwneud a chyffuriau gyda chymal 9.1 o'r polisi yn nodi bod unrhyw drosedd sydd yn ymwneud a chyffuriau yn fater difrifol. Mae paragraff 9.2 yn nodi y byddai cais yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn sy'n gysylltiedig â chyflenwi cyffuriau, a bod y gollfarn yn llai na 5 mlynedd o leiaf. Nodir paragraff 9.3 y bydd cais yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn sy'n gysylltiedig â bod a chyffuriau yn eu meddiant, a bod y gollfarn yn llai na 5 mlynedd o leiaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod y troseddau yn ymwneud a throeddau o anonestrydd. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 1985, dros 34 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd y troseddau oedd yn ymwneud a chyffuriau hefyd yn rai hanesyddol, y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 1997 (dros 22 mlynedd yn ôl) – tu hwnt i'r cyfnod 5 mlynedd, nid oedd paragraffau 9.1, 9.2 a 9.3 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

## **8. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr C**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol.

Gwahoddwyd cynrychiolydd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau ac amgylchiadau personol yr ymgeisydd.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:



- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn 1976 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Nant Conwy am feddu arf bygythiol mewn man cyhoeddus ac am achosi gwir newid corfforol yn groes i Ddeddf Atal Trosedd 1953 a Deddf Troseddau yn erbyn y Person 186. Yn Mehefin 1978, derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Caernarfon a Gwyrfaï am gyfres o gollfarnau - gwir niwed corfforol, gwrthod ymadael ag adeilad trwyddedig a dau gyfrif o ddifrod troseddol. Derbyniodd ddirwyon o £80 a thalu iawndal o £9. Yn Hydref 1985 cafodd yr ymgeisydd yn euog ar ddau gyhuddiad o ddifrod troseddol yn groes i'r Ddeddf Difrod Troseddol 1971 - derbyniodd ddirwy o £75 a gorchymyn i dalu iawndal o £54.07. Yn Rhagfyr 1987 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn am ddau drosedd o rwystro'r Heddlu yn groes i Ddeddf Heddlu 1964 a dirfod troseddol. Derbyniodd ddirwy o £75, gorchymyn i dalu costau o £15 a dirwy o £26.45. Yn Nhachwedd 2005 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd ar ddau achos o yrru cerbyd heb yswiriant a gyrru cerbyd o dan ddylanwad alcohol sydd yn groes i Ddeddf Traffig y Ffyrdd 1988. Cafodd ddirwy o £100, derbyn pwyntiau ar ei drwydded gyrru a gwaharddiad rhag gyrru am 56 diwrnod.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â cholffarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwyr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Fe nodir ym mharagraffau 6.3 - 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae ymosodiad cyffredin, meddu ar arf a difrod troseddol yn cael ei cynnwys yn y rhestr.

Ystyriwyd paragraff 11.0 sydd yn cyfarch troseddau o yfed a gyrru. Ym mharagraff 11.1 fe nodir y byddai ystyriaeth ddifrifol i gollfarnau am yrru neu fod yn gyfrifol am gerbyd dan ddylanwad alcohol / cyffuriau. Bydd un sydd wedi ei gael yn euog o droseddau yn ymwneud ag yfed a gyrru yn annhebygol o gael trwydded hyd nes iddo fod yn rhydd rhag collfarn(au) o'r fath am 3 blynedd o leiaf.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod nifer o'r troseddau yn ymwneud a throseddau o drais, fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 1987, dros 31 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 6.6 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod y drosedd oedd yn ymwneud ag yfed a gyrru hefyd yn un hanesyddol, ynghyd a'r gwaharddiad am yrru. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd yn 2005, dros 13 mlynedd yn ôl, nid oedd paragraff 11.1 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:25pm

---

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL 20.09.2019

---

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Edgar Owen a Dafydd Owen

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Alun Merfyn Roberts (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

### 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan yr ymgeisydd

### 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 3. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

### 4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

### 5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A

Amlygodd y Swyddog Trwyddedu bod cais wedi dod i law gan yr ymgeisydd i ohirio'r gwrandawriad gan nad oedd yn gallu bod yn bresennol oherwydd ymrwymadau gwaith.

**PENDERFYNWYD** gohirio'r gwrandawriad fel bod modd i'r ymgeisydd fod yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno ei gais.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 2:05pm

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Elfed Williams (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Gareth Jones ac Angela Russell

**Swyddogion:** Geraint Brython Edwards (Cyfreithiwr), Alun Merfyn Roberts (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYD**

Dim i'w nodi

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13, Rhan 4, Atodiad 12 A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraffau yma yn berthnasol oherwydd bod gan yr unigolion dan sylw'r hawl i breifatrwydd ac nad oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus o gadw'r wybodaeth yn eithriedig yn gorbwyso'r budd cyhoeddus o'i datgelu.

**5. CAIS AM DRWYDDED GYRRU CERBYD HACNI / HURIO PREIFAT – Mr A**

a) Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Amlygodd y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi trwyddedu Cyngor Gwynedd. Nodwyd mai pwrpas y polisi oedd gosod canllawiau ar y meini prawf wrth ystyried cais yr ymgeisydd gyda'r nôd o ddiogelu'r cyhoedd drwy sicrhau:

- Bod yr unigolyn yn unigolyn addas a phriodol
- Nad yw'r unigolyn yn fygythiad i'r cyhoedd
- Bod y cyhoedd wedi'u diogelu rhag pobl anonest
- Bod plant a phobl ifanc wedi'u diogelu
- Bod pobl ddiamddiffyn wedi'u diogelu
- Bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus wrth ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad ysgrifenedig ar gais a dderbyniwyd gan Mr A am drwydded gyrru cerbyd hacni/hurio preifat. Gofynnwyd i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn unol â'r cofnod DBS, y canllawiau ar droseddau a cholffarnau perthnasol. Roedd yr adroddiad yn argymhell gwrthod y cais

Gwahoddwyd yr ymgeisydd i ymhelaethu ar y cais a rhoi gwybodaeth am gefndir y troseddau a'i amgylchiadau personol. Amlygodd bod y drosedd o drais yn 2014 yn un o daro yn ôl pan wnaeth ei gynbartner ymddwyn yn ymosodol tuag ato.

Nododd ei fod yn gyrru tacsis ers 2008 ac wedi derbyn trwydded ar ôl y gollfarn yn 2014. Daeth y drwydded i ben yn 2019. Amlygodd cyflogwr yr ymgeisydd ei bod yn ei adnabod ers dros 20mlynedd ac nad oedd wedi derbyn unrhyw gwynion am ei ymddygiad yn y cyfnod hwnnw. Ategodd bod y digwyddiad o daro yn ôl yn un allan o gymeriad. Nid oedd ganddi unrhyw bryderon nac amheuaeth dros barhau i'w gyflogi ac roedd yn ymddiried ynddo.

Ymneilltuodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd o'r ystafell tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

**b) PENDERFYNWYD bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol ar gyfer trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gyda Chyngor Gwynedd.**

c) Wrth gyrraedd eu penderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor wedi ystyried y canlynol:

- Gofynion 'Polisi Trwyddedu ar gyfer Hurio Preifat a Cherbydau Hacni Cyngor Gwynedd'
- ffurflen gais yr ymgeisydd
- sylwadau llafar a gyflwynodd yr ymgeisydd a'i gynrychiolydd yn ystod y gwrandawriad
- adroddiad yr Adran Drwyddedu ynghyd a'r datganiad DBS

Yn Mawrth 1983 derbyniodd yr ymgeisydd gollfarn gan Lys Ynadon Blaenau Ffestiniog am gyfres o 5 cyhuddiad yn gysylltiedig â chymryd cerbyd heb awdurdod yn groes i Adran 12(1) Deddf Dwyn 1968. Am y troseddau hyn derbyniodd gyfanswm mewn dirywon o £113, ei wahardd rhag gyrru am 12 mis a derbyn pwyntiau ar ei drwydded gyrru. Yn mis Chwefror 1984 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Blaenau Ffestiniog am un cyhuddiad o ddwyn o eiddo nad oedd yn eiddo preswyl - hyn yn groes i Adran 9 (1) (B) Deddf Dwyn 1968. Cafodd ryddhad amodol o 12 mis, gorchymyn i dalu costau o £3 ac iawndal o £29. Ym mis Mai 2014 derbyniodd gollfarn gan Lys Ynadon Gwynedd am un cyhuddiad o guro yn groes i Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1998. Derbyniodd orchymyn cymunedol gyda gorchymynion goruchwyliaeth a gwaith di dal, costau o £85 a gordal dioddefwr o £60.

Ystyriwyd paragraff 2.2 o Bolisi'r Cyngor lle nodi'r nad oes rheidrwydd i berson sydd â chollfarn am drosedd ddifrifol gael ei wahardd rhag cael trwydded, ond bydd disgwyl iddo fod yn rhydd rhag unrhyw gollfarnau am gyfnod priodol fel y nodir yn y Polisi, a dangos tystiolaeth ei fod yn unigolyn addas a phriodol i ddal trwydded. Mae cyfrifoldeb ar yr ymgeisydd i brofi ei fod yn berson addas a phriodol.

Ystyriwyd paragraff 4.5 sydd yn nodi bod y Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwr 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002 yn caniatáu'r Is-bwyllgor ystyried pob collfarn, p'run ai ydynt wedi eu treulio o dan Ddeddf 1974 neu beidio.

Mae adran 6 o'r Polisi yn cyfarch troseddau o drais. Ym mharagraff 6.1 nodir, gan fod gyrrwr trwyddedig yn dod i gysylltiad agos ar cyhoedd yn rheolaidd y byddai is-bwyllgor yn mabwysiadu safbwynt cadarn at y rhai hynny sydd â throseddau yn ymwneud a thrais. Fe nodir ym mharagraffau 6.3 - 6.5 o'r Polisi y bydd cais am drwydded fel rheol yn cael ei wrthod os oes gan yr ymgeisydd fater i'w ystyried am ymosodiad cyffredin sydd yn llai na 3 blynedd cyn dyddiad y cais. Mae'r paragraff yn rhestru troseddau ac mae ymosodiad cyffredin yn cael ei gynnwys yn y rhestr.

Ystyriwyd paragraff 8.0 o'r Polisi sydd yn cyfarch troseddau o anonestrwydd gyda pharagraff 8.1 yn nodi y cymerir golwg ddifrifol ar unrhyw gollfarn sy'n ymwneud ag anonestrwydd. Mae paragraff 8.2 yn nodi y byddai cais fel arfer yn cael ei wrthod os bydd gan yr ymgeisydd gollfarn am drosedd a restrir, a bod y gollfarn yn llai na 3 blynedd cyn

dyddiad y cais. Nodwyd bod y rhestr troseddau yn cynnwys, ymhlith eraill, byrgleriaeth, mynd a cherbyd heb ganiatâd a lladrata.

Mae paragraff 12.2 o'r Polisi yn nodi y bydd cais fel arfer yn cael ei wrthod os oes cofnod o waharddiad gyrru am gyfnod o 12 mis neu fwy, oni bai bod 18 mis wedi mynd heibio ers diwedd y gwaharddiad.

Mae paragraff 16.1 o'r Polisi yn ymwneud ag ail-droseddu. Rhaid yn gyntaf sicrhau bod y collfarnau'n bodloni canllawiau'r polisi yn unigol, ond gyda'i gilydd yn creu hanes o ail-droseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill ac eiddo. O dan y Polisi rhaid bod 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y gollfarn fwyaf diweddar.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod troseddau 1983 a 1984 yn ymwneud a throseddau o anonestrwydd. Fodd bynnag, gan fod y gollfarn ddiwethaf wedi digwydd dros 35 mlynedd yn ôl (sydd tu hwnt i'r cyfnod 3 blynedd), nid oedd paragraff 8.2 yn goroesi ac felly nid yn sail i wrthod y cais.

Wrth ystyried y drosedd o yrru a arweiniodd at waharddiad gyrru, amlygwyd bod y gwaharddiad wedi dirwyn i ben 35 o flynyddoedd yn ôl ac felly nid oedd paragraff 12.2 yn goroesi fel sail i wrthod y cais.

Daeth yr Is-bwyllgor i benderfyniad bod collfarn 2014 yn un o drais, fodd bynnag gan fod y drosedd wedi digwydd dros 5 mlynedd yn ôl, nid yw yn sail i wrthod y cais.

Er i'r Is-bwyllgor ddod i'r casgliad nad oedd y collfarnau unigol yn sail i wrthod y cais, penderfynwyd ystyried y collfarnau gyda'i gilydd o dan baragraff 16.1. Daethpwyd i'r canlyniad bod y collfarnau oedd yn ymwneud ag anonestrwydd a thrais yn dangos hanes o aildroseddu sydd yn dangos diffyg parch at les eraill neu at eiddo. O ganlyniad, roedd yr ystyriaeth hon yn sail i wrthod y cais. Nid yw darpariaethau'r Polisi yn orfodol a bod modd gwyro oddi wrth yr argymhellion os yw ffeithiau'r achos yn caniatáu hynny. Wrth ystyried a ddylid gweithredu disgresiwn i wyro oddi wrth y sail, rhoddwyd ystyriaeth i ddifrifoldeb y troseddau, perthnasedd, dyddiad cyflawni, dyddiad collfarnu, oed yr ymgeisydd yn troseddu y ddedfryd a roddwyd, patrwm o droseddu yn ogystal ag unrhyw ffactor berthnasol arall.

Rhoddwyd ystyriaeth benodol i'r

- eglurhad a dderbyniwyd i gefndir y collfarnau
- bod collfarnau 1983 ac 1984 wedi digwydd dros 35 mlynedd yn ôl
- nad oedd perthnasedd rhwng y troseddau hanesyddol hyn a throsedd 2014
- bod yr ymgeisydd eisoes wedi bod yn ddeilydd trwydded gyrru tacsï ers 2008. Er nad oedd ateb na rheswm dros i'r ymgeisydd dderbyn trwydded ar ôl collfarn 2014, mynegwyd bod y gwrandawriad yn ffurfioli'r drefn.
- Nodwyd bod yr ymgeisydd wedi bod yn gyrru tacsï heb unrhyw ddigwyddiad wedi ei gofnodi ers collfarn 2014 - ystyriwyd hyn yn elfen gref o blaid yr ymgeisydd i wyro oddi wrth y sail i wrthod y cais.

Wedi pwysu a mesur y dystiolaeth ar wybodaeth yn ofalus, roedd yr Is-bwyllgor yn fodlon gwyro oddi wrth y Polisi a phenderfynu bod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol, i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni a hurio preifat.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i'r ymgeisydd.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:10pm a daeth i ben am 3:05pm

# Eitem 6

<b>PWYLLGOR</b>	<b>PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>2 RHAGFYR 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>DIRPRWYO HAWLIAU I BENDERFYNU AR GEISIADAU TRWYDDEDAU TACSI</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ADOLYGU'R CYNLLUN DIRPRWYO AC YSTYRIED OPSIYNAU AR GYFER ADDASU'R TREFNIADAU</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH YR ADRAN AMGYLCHEDD</b>

## 1.0 GWYBODAETH GEFNDIROL – CYD-DESTUN CYFREITHIOL

- 1.1 Mae gan y Cyngor fel Awdurdod Trwyddedu ddyletswydd o dan y Ddeddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847 a'r Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i drwyddedu gyrwyr a cherbydau hurio preifat a hacni, a gweithredwyr.
- 1.2 Mae'r grym i ddyfarnu trwyddedau gyrrwyr/gweithredwyr wedi'u cynnwys yn Adran 51, 55, a 59 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976( Y Ddeddf). Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Trwyddedu sicrhau bod sawl sy'n ymgeisio am drwydded gyrrwr/gweithredwr , neu'n ymgeisio i adnewyddu trwydded o'r fath, yn unigolyn 'addas a phriodol' i ddal y drwydded honno.
- 1.3 Mae'r grym i atal , diddymu, neu wrthod adnewyddu trwydded gyrrwr wedi'i cynnwys yn adran 61 o'r Ddeddf . Mae'r grym yn berthnasol i sefyllfaoedd lle bo'r ymgeisydd/deilydd y drwydded wedi
- ei gael yn euog o drosedd yn ymwneud ag anonestrwydd; anwedduster; neu drais
  - Methiant i gydymffurfio gyda darpariaethau Deddf Cymalau Heddluoedd Trefol 1847
  - Methiant i gydymffurfio a darpariaethau Rhan 2 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
  - Neu unrhyw achos arall rhesymol.
- 1.4 Prif bwrpas trwyddedu cerbydau , gweithredwyr a gyrwyr yw diogelu iechyd y cyhoedd; a dyma yw'r flaenoriaeth beth bynnag fo trefniadau'r Cyngor ar gyfer penderfynu os yw cais am drwydded yn cael ei ganiatáu neu beidio.

## 2. Y CYFANSODDIAD A HAWLIAU DIRPRWYEDIG

- 2.1 Mae'r Cyfansoddiad yn gosod trefn benodol o ran pa benderfyniadau sydd wedi eu dirprwyo i swyddogion; a pha benderfyniadau sydd yn disgyn o dan gyfrifoldebau'r Is Bwyllgor. Dywed cymal 11.3.5 o Atodiad 3 Adran 3 fod penderfyniadau trwyddedau tacsis wedi eu dirprwyo i'r Pennaeth Amgylchedd ac eithrio'r materion a restrir isod -

**11.3.5 Gweithredu pwerau'r Cyngor ym maes trwyddedu cerbydau hacni a cherbydau hur preifat ag eithrio'r materion canlynol sydd yn gyfrifoldeb i'r Is-Bwyllgor o'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.**

- a) Penderfynu ar gais am drwydded gyrrwr hacni/hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Biwro Cofnodion Troseddol yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.
- b) Penderfynu ar gais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat pan na fydd y cerbyd yn cydymffurfio â pholisi'r awdurdod.
- c) Penderfynu ar gais am drwydded gweithredwr hurio preifat pan fydd adroddiad o'r Gwasnaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos collfarn neu rybudd heddlu.

2.2 Mae pob penderfyniad arall mewn perthynas â'r gofynion cyfreithiol uchod wedi ei dirprwyo i'r Pennaeth Amgylchedd; sydd wedi awdurdodi swyddogion penodol i weithredu'r hawliau ar ei ran.

2.3 Mae'r grym i ddiddymu, neu atal trwydded yn cael ei ymarfer yn rheolaidd gan swyddogion a awdurdodir gan y Pennaeth Amgylchedd. Pan mae unigolyn yn anhapus gyda'r penderfyniad i atal neu ddiddymu trwydded; gall apelio i Lys Ynadon oddi fewn i 21 diwrnod o dderbyn yr hysbysiad atal/diddymu.

### 3. **MATERION ARALL I'W HYSTYRIED**

3.1 Yn ogystal â'r angen i gyfeirio ceisiadau gan unigolion sydd yn dangos collfarn neu rybudd Heddlu ar eu DBS; mae amgylchiadau ehangach lle y cyfeirir ceisiadau i'r Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol am benderfyniad

3.2 Gall hyn gynnwys cyhuddiad neu wybodaeth a dderbyniwyd am ymddygiad unigolyn sydd heb arwain at gollfarn; neu lle nad yw'r achos wedi cyrraedd y llysoedd eto.

3.3 Yn unol â gofynion Polisi cyfredol y Cyngor - *Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrrwr a Gweithredwr* - mae'r amgylchiadau canlynol hefyd yn arwain at gyfeirio unigolyn i wrandawriad o'r Is Bwyllgor am benderfyniad sef:

- Torri Deddf, Is-ddeddf neu Amod Trwydded
- Troseddau traffig difrifol neu sawl collfarn am fan droseddau traffig.

### 4 **Y SEFYLLFA BRESENNOL**

4.1 Ers dros flwyddyn bellach mae adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Is - Bwyllgor gydag argymhelliad sy'n seiliedig ar arweiniad Polisi cyfredol y Cyngor - *Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrrwr a Gweithredwr*, a barn broffesiynol y Swyddog. Mae'r adroddiad yn manylu'r troseddau neu faterion perthnasol eraill; ac mae'r ffurflen gais , DBS ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn cael eu cyflwyno er ystyriaeth Yr Is - Bwyllgor. Fe ymhelaethir ar y troseddau yng ngyd-destyn cymalau perthnasol o'r polisi



. Credir fod cyflwyno adroddiad ffurfiol gydag argymhelliad yn ddull effeithiol o sicrhau fod yr Is bwyllgor yn cael arweiniad clir a gais gan gynnwys tystiolaeth berthnasol sydd yn sail i'r argymhelliad. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi gwybodaeth ffurfiol i'r ymgeisydd (ac unrhyw bartion eraill) – ynglyn a sut mae'r Swyddog wedi cyrraedd ei argymhelliad ar y cais.

4.2 Fe roddir cyfle i bob ymgeisydd sydd yn ymddangos ger bron Yr Is - Bwyllgor i roi cefndir o ran y troseddau neu faterion perthnasol. Felly, mae adroddiad ac argymhelliad y Swyddog yn ogystal a thystiolaeth a gyflwynir gan yr ymgeisydd yn sicrhau fod gan yr Is bwyllgor yr holl dystiolaeth a'r wybodaeth sydd yn angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniad.

4.3 Fe welir o'r tabl isod ceisadau a gyfeiriwyd at yr Is Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol, gyda'r argymhelliad a phenderfyniad rhwng Hydref 2018 a Medi 2019

DYDDIAD	ARGYMHELLIAD	PENDERFYNIAD	DYDDIAD	ARGYMHELLIAD	PENDERFYNIAD
17/10/18	Gwrthod	Caniatáu	20/3/19	gwrthod	caniatáu
21/11/18	Gwrthod	Gwrthod	20/3/19	gwrthod	caniatáu
21/11/18	Gwrthod	caniatáu	12/4/19	caniatáu	caniatáu
27/11/18	Gwrthod	gwrthod	16/4/19	gwrthod	caniatáu
27/11/18	Caniatáu	caniatáu	16/4/19	gwrthod	gwrthod
10/12/18	Caniatáu	Caniatau	3/6/19	caniatáu	caniatáu
20/12/18	Gwrthod	Gwrthod	20/6/19	Caniatau	caniatáu
28/1/19	gwrthod	caniatau	01/8/19	gwrthod	gwrthod
28/1/19	gwrthod	caniatáu	18/9/19	caniatáu	caniatáu
28/1/19	gwrthod	caniatau	18/9/19	caniatau	caniatáu
20/3/19	gwrthod	caniatáu	18/9/19	caniatau	caniatau

4.3 Fe gyfeiriwyd 22 cais i'r Is - Bwyllgor am benderfyniad rhwng Hydref 2018 a Medi 2019. Fe ganiatawyd 9 cais yn groes i'r argymhelliad i wrthod ar sail polisi. Fe wrthodwyd 5 cais yn unol â'r argymhelliad; ac fe gymeradwywyd 8 cais yn unol â'r argymhelliad. Lle nad oedd y troseddau yn groes i'r polisi - fe gafwyd cymeradwyaeth yn unol â'r argymhelliad bob tro.

4.4 Mae gwydnwch i benderfyniadau'r Is Bwyllgor oherwydd bod pob ymgeisydd yn derbyn gwrandawriad teg; ac yn derbyn eglurhad llawn ar lafar ac yn ysgrifenedig am

resymeg y penderfyniad gan y Cyfreithiwr. Mae cyfeiriad penodol i berthnasedd cymalau'r polisi yn y llythyr penderfyniad; ynghyd ac unrhyw faterion eraill oedd yn berthnasol i'w hystyried er mwyn penderfynu os yw'r ymgeisydd yn berson 'addas a phriodol'

- 4.5 Roedd yr 8 cais a gymeradwywyd yn unol a'r argymhelliad dros y flwyddyn diwethaf yn geisiadau lle roedd yn amlwg nad oedd y troseddau neu materion eraill i'w hystyried - yn groes i'r polisi. Mae rhain fel arfer yn geisiadau lle nad oes collfarn diweddar; neu yn nhermau mwy nag un collfarn neu fater arall; lle mae dros 10 mlynedd wedi mynd heibio ers y drosedd diwethaf. Mae ambell i enghraifft o gais sydd wedi ei gyfeirio i'r Is - Bwyllgor gyda dim ond un collfarn hanesyddol am drosedd o drais lle mae gymaint ag 20 mlynedd neu fwy wedi mynd heibio. Mae llawer o geisiadau yn ddiweddar wedi eu cyfeirio oherwydd pwyntiau trwydded yrru yn unig.
- 4.6 Mae'r gyfundrefn ar gyfer caniatáu neu wrthod ceisiadau am drwyddedau tacsï yn cynnwys hawliau apêl, i Lys yr Ynadon. Mae penderfyniadau i wrthod caniatáu ceisiadau gan Is - Bwyllgor, neu i ddi-ddymu neu atal trwyddedau gan swyddogion yn cael eu gwneud er mwyn diogelu'r cyhoedd; ond mae'n bwysig ein bod yn gallu tystiolaethu rhesymeg penderfyniad gan fod hawliau apêl yn erbyn y penderfyniadau hyn.
- 4.7 Credir fod sgil effeithiau'r Cynllun Dirprwyo fel ac y mae yn golygu:
- Llwyth gwaith diangen i'r Is bwyllgor oherwydd y nifer o geisiadau sydd yn rhaid eu hadrodd oherwydd bod yr ymgeisydd gyda cholffarn
  - Llwyth gwaith diangen i'r Gwasanaeth Trwyddedu a'r Gwasanaeth Pwyllgorau oherwydd yr angen i baratoi adroddiadau a chyfarfodydd yr Is bwyllgor ar hap
  - Oedi yn y broses o benderfynu ar geisiadau oherwydd yr angen i adrodd i'r Is bwyllgor sydd yn golygu fod ymgeiswyr yn gorfod disgwyl yn hirach am benderfyniad
- 4.8 Credir fod angen edrych ar y trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel bod yr Is-Bwyllgor yn parhau i allu dyfarnu penderfyniad mewn modd gwrthrychol a rhesymegol lle mae'r ceisiadau o ran ei natur yn cyfiawnhau penderfyniad gan Yr Is - Bwyllgor. Awgrymir y dylid ystyried opsiynau ar gyfer sicrhau nad yw ceisiadau lle mae un neu ddau o fan droseddau hanesyddol, yn cael eu cyfeirio at yr Is -Bwyllgor.

## **5 OPSYNAU I'W HYSTYRIED**

- 5.1 Credir y gellir adolygu'r drefn ddirprwyo gan sicrhau parhad i wydnwch penderfyniadau swyddogion a'r Is - Bwyllgor; ond drwy ganiatáu cyfle i'r Is - Bwyllgor ganolbwyntio ar geisiadau mwyaf cynhennus neu gymhleth.
- 5.2 Mae trefniadau dirprwyo penderfyniadau fel hyn yn amrywio o gyngor i gyngor. Mae rhai Awdurdodau Trwyddedu yn dirprwyo hawl i swyddog benderfynu ar unrhyw gais nad yw yn groes i bolisi. Mae rhai yn dirprwyo hawliau penderfyniad i Swyddog; ond gyda chymfundrefn apel i Is - Bwyllgor os nad yw ymgeisydd yn cytuno gyda phenderfyniad.
- 5.3 O safbwynt Cyngor Gwynedd rydym yn grediniol fod rol bwysig gan yr Is bwyllgor o ran ystyried a phenderfynu ar geisiadau am drwyddedau, ond mae'n debyg mai'r her yw diffinio'r amgylchiadau lle dylid cyfeirio gais i'r Is bwyllgor.

- 5.4 Cynigir opsiynau fel a ganlyn fel opsiynau dechreuol i'r Pwyllgor eu hystyried a'u trafod ac am gymeradwyaeth i'r Gwasanaeth Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol i edrych ar y opsiynau (neu cyfuniad ohonynt) mewn mwy o fanlyder.
- 5.5 **Opsiwn A** - Cadw'r drefn yn debyg i'r hyn sydd yn bodoli yn bresennol ond yn cadarnhau -
- Fod ceisiadau yn cael; eu cyfeirio at Is - Bwyllgor pan fydd troseddau neu gollfarnau boed ar adroddiad DBS neu fel arall
  - Nad oes rhaid cyfeirio ceisiadau os yw'r troseddau wedi eu hystyried o'r blaen gan is-bwyllgor ( a bod y cais wedi ei ganiatáu bryd hynny).
- 5.6 **Opsiwn B** – Dirprwyo'r hawl i swyddogion benderfynnu caniatáu ceisiadau lle nad yw troseddau neu materion eraill i'w ystyried yn groes i'r polisi' a lle mae un neu ddau o hen droseddau hanesyddol neu faterion eraill, gyda'r trosedd diweddaraf wedi digwydd dros 10 mlynedd yn ol.
- 5.7 Fe fyddai Opsiwn B yn golygu fod ceisiadau yn cael eu cyfeirio i'r Is - Bwyllgor lle mae swyddog yn argymhell gwrthod ar sail fod y cais yn groes i Bolisi neu fod materion eraill i'w hystyried a thystiolaeth nad yw'r ymgeisydd yn berson ' addas a phriodol'
- 5.8 **Opsiwn C** – Cyfeirio unrhyw gais i'r Is - Bwyllgor lle mae amryw troseddau diweddar neu troseddau difrifol a pherthnasol neu unrhyw fater arall i'w ystyried ; a lle mae risgiau sylweddol i ddiogelwch y cyhoedd petai penderfyniad i wrthod yn cael ei herio yn llwyddiannus drwy apel.
- 5.9 **Opsiwn D** – Cyfeirio penderfyniadau i'r Is - Bwyllgor yn unol a disgresiwn y Pennaeth Amgylchedd

## 6. ARGYMHELLIAD -

### 6.1 Gofynnir i'r Pwyllgor:

- Gefnogi'r egwyddor or adolygu'r cynllun dirprwyo cyfredol
- Ystyried yr opsiynau dechreuol a rhoi cymeradwyaeth i'r Gwasanaeth Trwyddedu mewn ymgynghoriad gyda'r Gwasanaeth Cyfreithiol i edrych mewn mwy o fanlyder ar yr opsiynau neu gyfuniad ohonynt ac adrodd yn ol i'r Pwyllgor gydag opsiynau terfynnol a'r opsiwn a ffafrir cyn diwedd Mawrth 2020.